



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Swyddogaeth Gweinidogion Cymru fel Prif Reoleiddiwr elusennau wedi'u heithrio

Corfforaethau Addysg Bellach yng Nghymru a Choleg
Chweched Dosbarth Catholig Dewi Sant

www.llyw.cymru



Canllawiau

Dogfen ganllawiau: rhif 177/2015

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2015

Swyddogaeth Gweinidogion Cymru fel Prif Reoleiddiwr elusennau wedi'u heithrio

Cynulleidfa	Llywodraethwyr a chlercod corfforaethau addysg bellach yng Nghymru a Choleg Chweched Dosbarth Catholig Dewi Sant.
Trosolwg	<p>Mae llywodraethwyr corfforaethau addysg bellach yn 'ymddiriedolwyr' i'r elusennau y maent yn eu gwasanaethu. Mae ymddiriedolwyr elusen yn gyfrifol am oruchwylio elusen a chyfarwyddo sut y caiff ei rheoli a'i rhedeg. Mae gan ymddiriedolwyr elusen wedi'i heithrio yr un dyletswyddau sylfaenol ag ymddiriedolwyr elusennau eraill ac mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â chyfraith elusennau yn yr un modd ag ymddiriedolwyr eraill.</p> <p>Mae'r canllawiau hyn yn rhoi trosolwg o swyddogaeth y Prif Reoleiddiwr yng Nghymru a chyfrifoldebau corfforaethau addysg bellach a Choleg Chweched Dosbarth Catholig Dewi Sant o ran cydymffurfio â chyfraith elusennau.</p> <p>Ni fwriedir i'r canllawiau hyn fod yn ganllaw cynhwysfawr nac yn ddatganiad cyfreithiol awdurdodol; yn hytrach mae'n rhoi trosolwg ac yn nodi ffynonellau gwybodaeth perthnasol. Mae corfforaethau yn parhau i fod yn gyfrifol am chwilio am eu cyngor cyfreithiol eu hunain o ran llywodraethu corfforaethol a'r rhwymedigaethau sy'n deillio o'u statws elusennol.</p>
Camau i'w cymryd	Er gwybodaeth ac i'w dosbarthu i lywodraethwyr a chlercod corfforaethau addysg bellach yng Nghymru a Choleg Chweched Dosbarth Catholig Dewi Sant.
Rhagor o wybodaeth	<p>Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at: Y Gyfarwyddiaeth Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes Llywodraeth Cymru Rhodfa Padarn Llanbadarn Fawr Aberystwyth SY23 3UR e-bost: principalregulatorfe@cymru.gsi.gov.uk</p>
Copiau ychwanegol	Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/addysgsgiliau
Dogfennau cysylltiedig	<p>Charities Act 2011 http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2011/25/contents</p> <p>The Charities Act 2011 (Principal Regulators of Exempt Charities) Regulations 2013 www.legislation.gov.uk/uksi/2013/1764/made</p>

Cynnwys

1. Cyflwyniad	2
2. Cefndir	3
3. Beth yw goblygiadau hyn i gorfforaethau addysg bellach	5
4. Hybu cydymffurfiad	7
5. Rhoi gwybod am ddigwyddiadau difrifol	9
6. Pryderon a chwynion	10
7. Rhagor o wybodaeth	11
Atodiad A: Ymdrin â chwynion difrifol a manylion cyswllt	12
Atodiad B: Cyfarwyddyd a deddfwriaeth y Comisiwn Elusennau	15

1. Cyflwyniad

Mae'r nodyn cyfarwyddyd hwn yn ymdrin â swyddogaeth y Prif Reoleiddiwr yng Nghymru a chyfrifoldebau Corfforaethau Addysg Bellach fel elusennau wedi'u heithrio. Mae'n rhaid i Gorfforaethau Addysg Bellach gael gwybodaeth a chynghor priodol er mwyn sicrhau eu bod yn deall eu rhwymedigaethau wrth gydymffurfio â chyfraith elusennau.

Mae'r nodyn cyfarwyddyd hwn yn darparu trosolwg o'r gofynion a dolenni at ffynonellau gwybodaeth perthnasol.

2. Cefndir

Y Comisiwn Elusennau yw'r rheoleiddiwr elusennau yng Nghymru a Lloegr, ac mae ganddo bum amcan; sef:

- cynyddu ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd mewn elusennau
- hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r modd y gweithredir budd cyhoeddus
- hybu cydymffuriad ymddiriedolwyr elusennau â'u rhwymedigaethau cyfreithiol wrth reoli a rhedeg eu helusennau
- hybu defnydd effeithiol o adnoddau elusennol; a
- gwella atebolrwydd elusennau i'w buddiolwyr a'r cyhoedd.

Beth yw Elusen Wedi'i Heithrio?

Elusennau Wedi'u Heithrio yw elusennau sydd wedi'u heithrio rhag cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau a rhag cael eu goruchwyllo ganddo. Mae Atodlen 3 o Ddeddf Elusennau 2011 (y Ddeddf) yn nodi bod Corfforaethau Addysg Bellach¹ yn elusennau â statws esempt. Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer rheoleiddio elusennau wedi'u heithrio gan Brif Reoleiddiwr.

Beth yw Prif Reoleiddiwr?

Mae gan y Prif Reoleiddiwr ddyletswydd gyffredinol i wneud popeth yn ei allu o fewn rheswm i hybu cydymffuriad â'u rhwymedigaethau cyfreithiol ymhlith ymddiriedolwyr elusennau wedi'u heithrio wrth iddynt reoli, trefnu a gweinyddu eu helusennau².

Mae'r Prif Reoleiddiwr yn gweithio'n agos gyda'r Comisiwn Elusennau a'i nod yw cynyddu ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn yr elusennau y mae'n eu rheoleiddio drwy hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r gofynion 'budd cyhoeddus' ymhlith y buddiolwyr a'r cyhoedd. Fodd bynnag, os yw'r Prif Reoleiddiwr yn nodi pryder ynglŷn ag elusen benodol, caiff wahodd y Comisiwn Elusennau i ddefnyddio ei bwerau i archwilio ac ymyrryd. Yn ymarferol, mae'n bosibl i hyn gynnwys:

- Hybu cydymffuriad ymddiriedolwyr elusennau â chyfraith elusennau drwy eu cyfeirio at wybodaeth a chyfarwyddyd.
- Monitro cydymffuriad â chyfraith elusen drwy weithdrefnau monitro presennol.

¹ Gwnaed corff llywodraethol coleg Catholig Dewi Sant yn gorfforedig, a rhoddwyd statws elusen wedi'i heithrio iddo yn rhinwedd O.S. 2005/2293 (C. 171) a wnaed gan ddefnyddio pwerau yn adran 143(6) Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p.21).

² Disgrifir hyn yn y Ddeddf fel y nod cydymffurfio gweler adran 26 y Ddeddf. Yng Nghymru, penodwyd Gweinidogion Cymru yn Brif Reoleiddiwr Corfforaethau Addysg Bellach yng Nghymru a Choleg Catholig Dewi Sant ar 1 Medi 2013.

- Os ceir cwyn am elusen wedi'i heithrio sy'n ymwneud â chydymffurfio â chyfraith elusennau, bydd y Prif Reoleiddiwr yn atgyfeirio'r mater i'r Comisiwn Elusennau.
- Gweithio â'r Comisiwn Elusennau i sicrhau bod elusennau wedi'u heithrio yn atebol i'r cyhoedd.

Yng Nghymru, penodwyd Gweinidogion Cymru yn Brif Reoleiddiwr Corfforaethau Addysg Bellach yng Nghymru a Choleg Catholig Dewi Sant ar 1 Medi 2013.

3. Beth yw goblygiadau hyn i gorfforaethau addysg bellach

Ymddiriedolwyr

Mae aelodau cyrff Llywodraethu Corfforaethau Addysg Bellach yn 'ymddiriedolwyr' i'r elusennau y maent yn eu gwasanaethu. Mae ymddiriedolwyr elusen yn gyfrifol am oruchwylio elusen a chyfarwyddo sut y caiff ei rheoli a'i rhedeg. Mae gan ymddiriedolwyr elusen wedi'i heithrio yr un dyletswyddau sylfaenol ag ymddiriedolwyr elusennau eraill ac mae'n rhaid iddynt felly gydymffurfio â chyfraith elusennau yn yr un modd ag ymddiriedolwyr eraill.

Bydd dyletswyddau ymddiriedolwyr yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Cyflawni dibenion yr elusen er budd y cyhoedd
- Cydymffurfio â dogfen lywodraethu'r elusen a Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992³
- Gweithredu er budd gorau'r elusen yn unig
- Rheoli adnoddau'r elusen mewn modd cyfrifol; a
- Gweithredu â gofal a medrusrwydd rhesymol.

Gellir bodloni'r gofynion hyn drwy wneud y canlynol:

- i. Glynu at Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu'r elusen a deddfwriaeth sylfaenol gan gynnwys Deddf addysg Bellach ac Uwch 1992.
- ii. Rhoi sylw dyledus i ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus a sicrhau bod holl weithgareddau'r gorfforaeth yn ymwneud â'i nodau elusennol yn unig ac nad yw'n peryglu ei statws elusennol.
- iii. Cynnwys datganiad ar fudd cyhoeddus yn Adroddiad Blynyddol y Gorfforaeth.
- iv. Sicrhau mai dim ond at y dibenion a nodir yn y ddogfen lywodraethu y defnyddir arian ac asedau'r gorfforaeth.
- v. Meddu ar wybodaeth dda am gyflwr cyffredinol ystâd yr elusen, gan sicrhau ei bod yn cael ei defnyddio'n gywir a'i bod wedi'i hyswiro'n briodol.
- vi. Paratoi cyfrifon ac adroddiadau blynyddol yn brydlon a sicrhau eu bod ar gael i'r cyhoedd ar y wefan.
- vii. Peidio â chael budd ariannol uniongyrchol nac anuniongyrchol o'u swyddogaeth heblaw fel ac y caniateir gan gyfraith elusennau neu gan eu dogfen lywodraethu.

³ <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1992/13/contents>

- viii. Ymroi i atal camddefnyddio sefyllfa llywodraethwr ac arian / asedau'r coleg i sicrhau nad ydynt yn caniatáu i farn neu ragfarn bersonol effeithio ar eu hymddygiad fel ymddiriedolwyr.
- Yn ogystal, mae'n arfer da i elusennau gyhoeddi gwybodaeth am yr elusen ar y wefan gan gynnwys y ddogfen lywodraethu, enwau'r ymddiriedolwyr a chrynodeb o'r hyn y mae'r elusen yn ei wneud ynghyd â'r cyfrifon.

Mae cyfarwyddyd manwl ar gael gan y Comisiwn Elusennau yn The Essential Trustee: What you need to know (CC3)⁴.

⁴ <https://www.gov.uk/government/publications/the-essential-trustee-what-you-need-to-know-cc3>

4. Hybu cydymffurfiad

Er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r rôl a hybu cydymffurfiad â chyfraith elusennau, y mae Gweinidogion Cymru, yn rhinwedd eu swyddogaeth fel Prif Reoleiddiwr, ac yn gweithredu drwy'r Adran Addysg a Sgiliau, yn cymryd y camau canlynol:

- Dosbarthu'r nodyn cyfarwyddyd hwn i glercod, cadeiryddion ac is-gadeiryddion cyrff llywodraethu'r holl Gorfforaethau Addysg Bellach wedi'u heithrio yng Nghymru a Choleg Chweched Dosbarth Catholig Dewi Sant.
- Sefydlu tudalen ar wefan AdAS yn amlinellu swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Prif Reoleiddiwr a'r llywodraethwyr fel ymddiriedolwyr elusennau ynghyd â ffynhonnellau gwybodaeth defnyddiol a phwyntiau cyswllt.
- Cynnwys cyfeiriad at y nodyn hwn ac at ganllawiau'r Comisiwn Elusennau yn y canllaw arfaethedig ar gyfer cod llywodraethwyr yng Nghymru, gan roi sylw i gyngor ynglŷn ag ymddygiad ar gyfer Byrddau ac aelodau unigol Byrddau ar y cyd. Rhagwelir y bydd hwn yn cael ei fabwysiadu gan y sector Addysg Bellach yng Nghymru.
- Diweddarau gwybodaeth pan fo'r angen yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau gan gynnwys e-bost a rhwydwaith clercod Addysg Bellach.
- Cadw mewn cysylltiad agos â'r Comisiwn Elusennau er mwyn sicrhau bod diweddariadau a chyfarwyddiadau'n cael eu cyhoeddi'n rheolaidd.

Sut y bydd y Prif Reoleiddiwr yn monitro cydymffurfiad â chyfraith elusennau?

Pryd bynnag y bo modd, bydd systemau rheoleiddio/monitro a sefydlwyd eisoes yn cael eu defnyddio ac ni chyflwynir gofynion ychwanegol oni bai yr ystyrir eu bod yn hanfodol. Rhagwelir na fydd corfforaethau yn gweld unrhyw wahaniaeth o ddydd i ddydd yn y modd y'u rheoleiddir. Bydd swyddogion yr Adran Addysg a Sgiliau (AdAS) yn parhau i ddefnyddio eu gweithdrefnau presennol i sicrhau bod Corfforaethau Addysg Bellach yn cydymffurfio â chyfraith elusennau. Mae'r rhain yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Monitro cydymffurfiad ag ystod o ddogfennaeth gan gynnwys amodau a thelerau cyllido, memorandwm ariannol, cod ymarfer archwilio a chyfarwyddyd cyfrifon; a
- Mynnu bod tri adroddiad ariannol yn cael eu cyflwyno gan bob sefydliad bob blwyddyn; datganiadau ariannol a archwiliwyd (a chofnodion cyllid cysylltiedig) ym mis Rhagfyr bob blwyddyn, rhagolwg a strategaeth

ariannol ym mis Gorffennaf bob blwyddyn, ac adroddiad canol blwyddyn i'w gyflwyno ym mis Ebrill bob blwyddyn.

Y Gwasanaeth Sicrwydd a Llywodraethu Darparwyr sy'n gyfrifol am werthuso prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu ar gyfer sefydliadau a ariannir gan Lywodraeth Cymru ac am roi sicrwydd i Gyfarwyddwr Cyffredinol AdAS o ran y trefniadau rheoli mewnol hynny. Gwneir hyn gan amlaf trwy werthuso'r adroddiadau blynyddol ond gall hefyd gynnwys ymweliadau i asesu trefniadau rheoli mewnol.

5. Rhoi gwybod am ddigwyddiadau difrifol

Mae'n rhaid i Gorfforaethau Addysg Bellach hysbysu'r Prif Reoleiddiwr ar unwaith os ydynt yn nodi unrhyw ddigwyddiad difrifol a allai beryglu asedau, buddiolwyr neu enw da'r elusen. Mae rhestr y Comisiwn Elusennau o ddigwyddiadau difrifol yn cynnwys:

- Twyll, dwyn, neu'r elusen yn colli swm sylweddol o arian mewn ffordd arall.
- Rhodd fawr o ffynhonnell anhysbys.
- Cysylltiadau â therfysgaeth.
- Bod yr elusen heb bolisi i ddiogelu ei fuddiolwyr agored i niwed.
- Amheuan, honiadau neu ddigwyddiadau o gam-drin neu gamdriniaeth o fuddiolwyr agored i niwed.

Os nad ydych yn sicr pa un a yw digwyddiad yn cael ei ystyried yn un difrifol, mae'n ddoeth rhoi gwybod am y mater a'i drafod â'r Prif Reoleiddiwr, ac â'r Comisiwn Elusennau os yw hynny'n briodol. Mae rhagor o wybodaeth i'w chael yn Atodiad A.

6. Pryderon a chwynion

Caiff myfyrwyr, aelodau staff neu aelodau o'r cyhoedd grybwyll pryderon neu gwyno am ddiffyg cydymffurfio posibl â chyfraith elusennau. Dylid anfon yr achosion hyn drwy'r e-bost at y Prif Reoleiddiwr yn principalregulatorfe@cymru.gsi.gov.uk

7. Rhagor o wybodaeth

Adolygir y nodyn cyfarwyddyd hwn yn rheolaidd a'i ddiweddarau'n ôl yr angen i adlewyrchu datblygiadau yn y sector. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â chynnwys y ddogfen, anfonwch e-bost at principalregulatorfe@cymru.gsi.gov.uk

Mae gwefan y Comisiwn Elusennau'n cynnig ystod eang o wybodaeth a chyfarwyddyd hygyrch yn <https://www.gov.uk/government/organisations/charity-commission>

Atodiad A: Ymdrin â chwynion difrifol a manylion cyswllt

Gweithdrefn ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau difrifol

Pan fydd corfforaeth Addysg Bellach yn nodi digwyddiad difrifol, dylai hysbysu'r Prif Reoleiddiwr trwy anfon e-bost at principalregulatorfe@cymru.gsi.gov.uk

Dylid rhoi'r teitl 'Prif Reoleiddiwr - adroddiad am ddigwyddiad difrifol' i'r e-bost a dylid darparu manylion llawn y mater, ynghyd ag unrhyw gamau ymchwilio neu unioni a gymerwyd gan y gorfforaeth eisoes.

Pan fydd y Prif Reoleiddiwr yn cael adroddiad am ddigwyddiad difrifol, ein prif flaenoriaeth fydd penderfynu pa mor ddifrifol yw'r digwyddiad a'i effaith ar ddysgwyr, staff, a rhanddeiliaid eraill, yn ogystal â pha un a dorwyd unrhyw agweddau ar gyfraith elusennau. Yn dilyn hyn, byddwn yn nodi sut y cafodd y digwyddiad ei reoli gan y gorfforaeth a sut y mae wedi adolygu ei systemau / rheolaethau i leihau'r perygl y bydd yn digwydd eto. Yn y rhan fwyaf o achosion, os yw'r adroddiad cychwynnol yn gynhwysfawr a bod camau i ymdrin â'r digwyddiad wedi'u nodi⁵, y disgwyliad yw na fydd gofyn ceisio mwy o wybodaeth na chymryd camau pellach.

Os ystyrir bod angen cymryd camau pellach, bydd y Prif Reoleiddiwr yn hysbysu'r Comisiwn Elusennau ac yn gweithio gyda'r Comisiwn i ddatrys y mater.

Proses ar gyfer ymdrin â phryderon a chwynion

Caiff myfyrwyr, aelodau staff y gorfforaeth neu aelodau o'r cyhoedd grybwyll pryderon neu gwyno am ddiffyg cydymffurfiaid â chyfraith elusennau drwy anfon e-bost at y Prif Reoleiddiwr. Dylid rhoi'r teitl 'Prif Reoleiddiwr - diffyg cydymffurfio' i'r e-bost a dylid darparu manylion llawn y mater. Bydd y Prif Reoleiddiwr wedyn yn mynd ati i ymchwilio i'r digwyddiad.

Bydd unrhyw gwynion am y gorfforaeth sy'n cael eu codi'n uniongyrchol â'r Comisiwn Elusennol yn cael eu hystyried gan y Comisiwn yn faterion i'r Prif Reoleiddiwr ymdrin â nhw. Dim ond ar wahoddiad y Prif Reoleiddiwr y bydd y Comisiwn Elusennau yn ymwneud â mater.

Pan fydd y Prif Reoleiddiwr yn derbyn cwyn, y cam cyntaf yn y rhan fwyaf o achosion fydd cynghori'r achwynydd i grybwyll y pryder ag ymddiriedolwyr y Gorfforaeth Addysg Bellach os na wnaeth hynny eisoes. Yna dylai'r gorfforaeth ymchwilio i'r gwyn a rhoi adroddiad i'r Prif Reoleiddiwr. Ar y cam hwn, gwneir penderfyniad o ran a yw'r mater wedi'i ddatrys neu a oes angen cymryd camau pellach.

⁵ Gan roi ystyriaeth i ddyletswyddau cyfreithiol y cyrff llywodraethu, a phan fo'n briodol ymgynghori â chynghorwyr arbenigol, yn ogystal â cheisio cyfarwyddyd a chynghor gan y Comisiwn Elusennau, ymhlith eraill.

Mae'n ofynnol i gorfforaethau Addysg Bellach gyhoeddi gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion. Dylai'r gweithdrefnau hyn gynnwys y broses i'w dilyn i wneud cwyn, a'r proses ar gyfer hymchwilio i'r gŵyn honno, ei hadolygu a'i datrys. Dylai hefyd gynnwys yr amserlen a'r unigolion enwebedig.

Gellir canfod cyfarwyddyd ychwanegol ynglŷn â rhoi gwybod am bryderon a chwyno ar wefan y Comisiwn Elusennau yn <https://www.gov.uk/government/publications/complaints-about-charities>

Ymchwilio i bryderon ynglŷn â chydymffurfriad corfforaethau Addysg Bellach â chyfraith elusennau

Gall ymddiriedolwyr yr elusen eu hunain ddatrys y rhan fwyaf o broblemau mewn elusennau. Mae'n bosibl y bydd problemau eraill yn cael eu harchwilio a'u datrys gan y Prif Reoleiddiwr heb fod angen ymchwiliad. Fodd bynnag, yn yr achosion mwyaf difrifol, efallai y bydd angen i'r Prif Reoleiddiwr weithio gyda'r Comisiwn Elusennau i ymchwilio ymhellach i'r mater yn ffurfiol.

Yn yr achosion hyn, bydd yr AdAS yn ysgrifennu at Gadeirydd y corff llywodraethu, gan nodi manylion y pryder ac yn gwahodd ymateb. Bydd camau ychwanegol yn dibynnu ar natur yr ymateb a difrifoldeb y mater. Byddai swyddogion yn disgwyl y gellid datrys y mwyafrif o ddiwyddiadau trwy ohebiaeth. Fodd bynnag, os nad yw hyn yn bosibl yn achos digwyddiad difrifol, efallai y bydd y Prif Reoleiddiwr yn gofyn i'r Comisiwn Elusennau helpu â'r ymchwiliad.

Mae gan y Comisiwn Elusennau amrywiaeth o bwerau statudol y gallant eu defnyddio i atal camdriniaeth a diogelu asedau elusennol a buddiolwyr, gan gynnwys:

- **Pwerau casglu gwybodaeth** sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gael gafael ar wybodaeth neu ddogfennau; neu i unigolion enwebedig gyfarfod â nhw i ateb eu cwestiynau.
- **Pwerau diogelu dros dro** sy'n eu galluogi i ddiogelu eiddo elusen dros dro wrth iddynt barhau â'u hymchwiliad.
- **Pwerau unioni** sy'n eu galluogi i weithredu atebion hirdymor i broblemau a nodir yn aml gan ymchwiliad.

Dylid nodi pan fo pryderon difrifol ynglŷn â chamdriniaeth mewn elusen, mae'n bosibl y bydd y Comisiwn Elusennau'n ymchwilio ac yn agor ymchwiliad o dan adran 46 o Ddeddf Elusennau 2011. Mae cyfarwyddyd y comisiwn ynglŷn â'u hagwedd reoleiddiol ar gael yn <https://www.gov.uk/government/publications/risk-framework-charity-commission>

Manylion cyswllt

Cewch gysylltu â'r Prif Reoleiddiwr drwy anfon e-bost i principalregulatorfe@cymru.gsi.gov.uk

Atodiad B: Canllawiau a deddfwriaeth y Comisiwn Elusennau

Mae gan y Comisiwn Elusennau amrywiaeth o ganllawiau defnyddiol i'ch helpu yn eich swyddogaeth fel ymddiriedolwr elusen wedi'i heithrio. Yn ogystal, mae Deddf Elusennau 2011 yn caniatáu i'r Comisiwn ddarparu cyngor i elusennau. Caiff elusen ysgrifennu atynt am gyngor ffurfiol ynghylch a fyddai cymryd camau penodol gyfystyr ag ymddygiad priodol gan ymddiriedolwr.

Canllawiau

Yr ymddiriedolwr hanfodol

Elusennau wedi'u heithrio

Canllawiau budd y cyhoedd

Gwneud penderfyniadau

Gwrthdaro buddiannau

Taliadau i ymddiriedolwyr

Ymgyrchu a gweithgaredd gwleidyddol

Rheoli risg

Rheoli asedau elusen

Deddfwriaeth

Deddf Elusennau 2011